TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

IMI Diploma Vehicle Maintenance and Repair (Motorcycle) Level 3

Yn gryno

Caiff y cwrs hwn ei ardystio fel Diploma Technegol a'i fwriad yw diwallu elfen ddamcaniaethol y cwrs VCQ Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Beiciau Modur. Mae hefyd yn diwallu gofynion y Fframwaith Prentisiaeth Beiciau Modur.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Ydych eisoes wedi cwblhau Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau (Beiciau Modur)

... Oes gennych ddiddordeb ysol mewn beiciau modur

... Ydych yn dda am ddatrys problemau ac yn weithgar

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ceir 9 o fodiwlau i'w cwblhau trwy gyfuniad o elfennau ymarferol a damcaniaethol. Byddwch yn astudio unedau fel:

Iechyd, diogelwch a threfniadau da yn yr amgylchedd modurol
Cymorth ar gyfer rolau swyddi yn yr amgylchedd modurol
Deunyddiau, dulliau saernïo, offer a dyfeisiadau mesur a ddefnyddir yn yr amgylchedd modurol

Diagnosio a chywiro diffygion trydanol mewn beiciau modur
Paratoi ac archwilio beiciau modur
Diagnosio a chywiro diffygion mewn injans beiciau modur
Diagnosio a chywiro diffygion mewn systemau siasis beiciau modur
Diagnosio a chywiro diffygion trawsyrru a diffygion llinellau gyriant mewn beiciau modur
Gwybodaeth am sut i ganfod a chytuno ar anghenion gwasanaeth cwsmeriaid cerbydau modur

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, fel hunanreoli, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng arholiadau, gwaith cwrs, aseiniadau, gwaith portffolio ac asesiadau ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

IMI Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau (Beiciau Modur)
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

Gofynion Mynediad

Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau (Beiciau Modur) Lefel 2, neu Ddiploma Lefel 2 Cyfwerth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r cwrs hwn ar gyfer myfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn gwneud lefel 2 amser llawn ac a fydd yn symud ymlaen i lefel rhan amser 3 y flwyddyn nesaf.

Bydd angen y PPE cywir arnoch ar gyfer y cwrs hwn.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae hyn yn costio tua £40.

Mae'r cwrs hwn yn 12 awr yr wythnos.